

Amrywiaeth Crefydd a Chred

Canllawiau a phhecyn adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru a Lloegr

Peter Hemming, Elena Hailwood, Connor Stokes (Prifysgol Caerdydd)

Crynodeb Gweithredol

Mae amrywiaeth crefydd a chred yn cael ei chydabod fwyfwy ym maes addysg fel elfen o wahaniaeth cymdeithasol sy'n haeddu sylw. Fodd bynnag, nid yw ysgolion cynradd yng Nghymru a Lloegr bob amser wedi cael mynediad hawdd at ganllawiau clir ynglŷn â sut i ymdrin â'r mater. Mae'r pecyn canllawiau ac adnoddau hwn yn dod â fframweithiau polisi perthnasol, ymchwil academaidd ac arferion da ynghyd mewn un ddogfen, ac yn cynnig gwybodaeth am adnoddau defnyddiol yn y maes. Mae'n defnyddio arbenigedd ar draws y sector, gan gynnwys gan ymchwilwyr, gweithwyr addysgu proffesiynol, a sefydliadau addysgol.

Mae'r pecyn hwn yn rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ar ysgolion i greu amgylchedd sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth crefydd a chred, ac i roi Addysg Grefyddol sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a pharch rhwng crefyddau. Mae wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau penodol ysgolion â disgyblion sydd fwy neu lai o gefndir amrywiol, ysgolion gyda neu heb elfen grefyddol, ac ysgolion mewn cyd-destunau trefol neu wledig. Mae'r pecyn arweiniad ac adnoddau'n rhad ac am ddim ac mae ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf PDF: <http://orca.cf.ac.uk/114467>

Mae'r pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Fframweithiau deddfwriaethol, cwricwlwm neu arolygu
- Canllawiau ar gyfer ysgolion:
 - Datblygu ymagwedd ar gyfer yr ysgol gyfan
 - Cysylltiadau rhyng-ffydd cadarnhaol
 - Addysg Grefyddol o safon
 - Cynulliadau cynhwysol ac addoli ar y cyd
 - Addasu ar gyfer anghenion crefyddol
 - Gwyliau a dathliadau crefyddol
 - Rhieni a'r gymuned ehangach
- Adnoddau cwricwlwm, rhestrï'r sefydliad, enghreifftiau o arddangosfeydd